

Stryd Tudor Tudor Street



Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYNGOR CAERDYDD

Cynllun Gwella Trafnidiaeth ac Amgylchedd Busnes Stryd Tudor

Mae Cyngor Caerdydd yn datblygu cynigion i wella'r tir cyhoeddus a thrafnidiaeth yn Stryd Tudor

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Lôn feicio newydd i'r ddau gyfeiriad ar wahân rhwng pont Stryd Wood â Clare Street
- Ynys fysis arfaethedig gyferbyn â Plantagenet Street, hwyluso teithio ar fysis i'r Sgwâr Canolog a chanol y ddinas ehangach;
- Seilwaith gwyrdd gwell;
- Gwella'r amgylchedd stryd gyda phalmant, celfi stryd a goleuadau newydd

Sut i ymateb

Mae manylion llawn, gan gynnwys darluniadau'r cynllun a sut i ymateb ar gael yn y pecyn ymgynghori, sydd ar gael ar-lein yn Caerdydd.gov.uk/ProjectauTrafnidiaeth neu gellir gwneud cais amdanynt drwy e-bost i strydtudor@caerdydd.gov.uk


Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn **17 Awst 2020**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynigion, anfonwch e-bost i strydtudor@caerdydd.gov.uk

Stryd Tudor

Mae ardal fusnes masnachol Tudor Street wedi'i nodi yng Nghynllun Gweithredu Busnes De Glan-yr-afon yn brif flaenoriaeth adfywio i Gyngor Caerdydd. Mae'r cynllun yn ceisio gwella Tudor Street fel cyrchfan deniadol drwy greu amgylchedd dymunol a chroesawgar i fusnesau, prsewylwyr a'r gymuned ehangach. Mae cynllun Tudor Street yn broiect partneriaeth rhwng yr adrannau Adfywio a Thrafnidiaeth sy'n gweithio ar y cyd i weddnewid amgylchedd busnes a chefnogi gwelliannau Trafnidiaeth ehangach. Ariennir y cynllun gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd

- Safleoedd Bws
- Lonydd seiclo
- Parcio
- Palmant â nodweddion
- Gerddi Glaw
- Coed
- Palmentydd newydd gwell



Stryd Tudor

Gwelliannau

- Lôn feicio newydd i'r ddau gyfeiriad ar wahân rhwng pont Stryd Wood a'r gyffordd â Clare Street i gyd-fynd a'r gwelliannau arfaethedig yng Nghanol y Ddinas a'r Beicffyrdd;
- Ynys fysis arfaethedig gyferbyn â Plantagenet Street, hwyluso teithio ar fysis i'r Sgwâr Canolog a chanol y ddinas ehangach;
- Gwella'r seilwaith gwyrdd, yn benodol coed a phlannu gerddi glaw, gan hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer bio-amrywiaeth a gwell ansawdd aer. Mae yna welliannau sylweddol i'r seilwaith gwyrdd yn y cynlluniau hyn, ar heol lle nad oes unrhyw wyrddni ar hyn o bryd. Bydd y gerddi glaw newydd a'r coed yn cysylltu â phrojectau seilwaith gwyrdd eraill yn yr ardal leol, Project Cludiant y Sgwâr Canolog, parciau lleol, a chynlluniau plannu cymunedol eraill. Byddwn yn gweithio gyda thrigolion lleol a sefydliadau er mwyn cysylltu'r cynlluniau hyn ynghyd er mwyn creu 'coridor gwyrdd' o ganol y ddinas a thrwy Glanyrafon.
- Creu amgylchedd cyhoeddus dymunol a chroesawgar drwy wella'r Porth i dde Glan-yr-afon o ganol y ddinas, gyda symudiad â blaenoriaeth i gerddwyr drwy balmentydd ehangach a gwell croesfannau i gerddwyr;
- Gwella mynediad i Daith Taf drwy ailalinio'r ramp a'r grisiau presennol wrth y gyffordd â Tudor Street;
- Gwella'r amgylchedd stryd gyda phalmant, celfi stryd a goleuadau newydd.



Stryd Tudor

Mae Adfywio Cymdogaethau

Y cynllun Gwella Amgylchedd Busnes a Thrafnidiaeth Tudor Street yn ategu gwaith sydd eisoes ar y gweill i wella busnesau lleol drwy Gynllun Gwella Masnachol Thematig TRI. Mae dros £1 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn adeiladau masnachol yr ardal siopa hon mewn partneriaeth â busnesau lleol sydd wedi ymrwymo i gymryd rhan.

Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd a chyfraniadau gan berchnogion busnes. Y tîm adfywio yng Nghyngor Caerdydd sy'n rhedeg y project ac mae'n gweithio gyda busnesau i gynllunio'r gwelliannau, cael caniatâd cynllunio a chwblhau'r gwaith.

Mae'r arian hwn yn ceisio gwella golwg busnesau drwy ddarparu ffryntiadau siopau newydd, arwyddion, caeadau a gwelliannau i loriau cyntaf ac ail loriau adeiladau megis ffenestri a pheintio newydd.

Mae disgwyl i'r gwaith Cam 1 ddechrau yn fuan iawn, gyda rhaglen dreigl o waith hyd at Gam 4.



Stryd Tudor

Croestoriad Ynys Bysus



Ynsoedd Bysus

Stryd Tudor

- Bydd rhai o'r safleoedd bws ar Stryd Tudor yn sefyll ar ynys rhwng y llwybr beicio a'r ffordd.
- Bydd croesfan sebra lle bydd beicwyr yn ildio i gerddwyr i fynd i'r ynys a chyrraedd y safleoedd bws.

Mae Safleoedd Bws yn Wyrdd

- Caiff llawer o doeau y safleoedd bws newydd ar draws canol y ddinas eu plannu gyda llwyni a gwyrddni i helpu i annog pryfed pwysig i mewn i'n hamgylchedd.
- Bydd y safleoedd bws newydd gwyrddach hefyd yn helpu gyda phroblemau draenio dŵr, gan amsugno rhywfaint o'r dŵr glaw a'i ddargyfeirio o'n draeniau prysur.

Llwybr beicio
dau gyfeiriad

Ynys Bysus

Lôn fysus

Golwg o Gynllun Ynys Bysus

Lloches fysus fioamrywiol



Croesfan sebra; beicwyr yn ildio i gerddwyr

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Pan fydd glaw yn disgyn yn yr amgylchedd naturiol, mae nodweddion naturiol fel coed, planhigion, gweiriau, pridd, ynghyd ag afonydd a nentydd yn helpu i brosesu'r dŵr hwn ac mae hyn yn ffurfio rhan annatod o'r cylch dŵr. Yn yr amgylchedd adeiledig, caiff camau arferol y cylch dŵr eu llesteirio'n ddifrifol. Mae'r problemau sy'n deillio o'r difrod i'r cylch hwn yn cynnwys llifogydd, llygredd ac erydu. Mae'r dŵr hwn na all fynd i mewn i'r cylch dŵr naturiol yn rhoi straen ychwanegol ar y system garthffosiaeth. Mae SDCau yn ddull naturiol o reoli dŵr wyneb drwy greu 'safle prosesu dŵr bychan'.

Manteision SDCau:

- Mesurau gostegu traffig naturiol.
- Improve the micro-climate.
- Gwella ansawdd yr aer.
- Dod â natur i'r amgylchedd trefol.

Mae llochesi bws bioamrywiol a Gerddi Glaw yn enghreifftiau o SDCau.

Lleoliadau plannu

Mae canopïau sy'n ffurfio ar frig coed, yn dal y glaw, sy'n anweddu'n raddol, gan leihau'r dŵr sy'n cyrraedd yr arwyneb.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cefnogi ecosystemau ac yn darparu lleoliad hidlo dŵr glaw.

Llochesi bws bioamrywiol: yn cynnwys cyfuniad o blanhigion gwyrdd a blodau gwyllt. Byddan nhw'n denu ac yn cynnal pryfed a bywyd gwyllt arall.

Gardd Law

SAFLE BYSTIAU
BUS STOP

Llochesi bws bioamrywiol

Gyda chyfuniad o wahanol blanhigion, maen nhw'n helpu i leihau ac arafu'r dŵr sy'n mynd i'r system ddraenio, a bydd to cyfan y lloches bws yn creu cynefin i gynnal pryfed a bywyd gwyllt arall. ynghyd ag amrywiaeth eang o flodau gwyllt.

Gerddi Glaw

Mae Gardd Glaw fel arfer yn ardal wedi ei phlannu, gydag amrywiaeth o rywogaethau, ac mae'r planhigion yn cyflawni sawl swyddogaeth allweddol; yn dal a glanhau dŵr glaw a dŵr wyneb ffo. Mae'r cyfaint is o ddŵr naill ai'n draenio i gwrs dŵr naturiol neu i'r system ddraenio.

Trawstoriad Gardd Law

Mae manau gwyrdd yn gwella'r amgylchedd dinesig.

Caiff halogion eu tynnu o'r dŵr wyneb ffo gan y llystyfiant.

Gyli: caiff dŵr wyneb ei ddraenio i'r ardd law yn hytrach nag i ddraeniau'r ffordd fawr.

Troedffordd

Ardal hidlo: planhigion a llystyfiant yn helpu i waredu halogion cyn i'r dŵr fynd i mewn i'r systemau carthffosiaeth.

Lôn gerbydau

System ddraenio: cyfaint llai o ddŵr yn mynd i'r system.

